# Welsh Language Policy / Polisi Iaith Gymraeg

**Document version control / Rheoli fersiwn ddogfen**

| | |
|---|---|
| **Document title / Teitl y ddogfen:** | Welsh Language Policy / Polisi Iaith Gymraeg |
| **Document status / Statws dogfennau** | Final / Terfynol |
| **Version number / Rhif y fersiwn** | 9.7 |
| **Date / Dyddiad** | 31/05/2026 |
| **Author / Awdur** | Quality Manager / Rheolwr ansawdd |
| **Approved by / Cymeradwywyd gan:** | Board /Bwrdd |
| **Review date / Dyddiad adolygu:** | 06/2027 |

## Contents / Cynnwys:


| Section | Section Title / Teitl Adran | Pg /Td |
|---|---|---|
| | | |
| 1 | Purpose / Diben | 3 |
| | | |
| 2 | Scope / Cwmpas | 3 |
| | | |
| 3 | Impact on the Learner / Effaith ar y Dysgwr | 3 |
| | | |
| 4 | Legal and Regulatory Frameworks / Fframweithiau Cyfreithiol a Rheoliadol | 3/4 |
| | | |
| 5 | Implementation / Gweithrediad | 4 |
| | | |
| 6. | Responsibilities / Cyfrifoldebau | 4 |
| 6.1 | Board of Directors / Bwrdd y Cyfarwyddwyr | 4/5 |
| 6.2 | Operational Management / Rheolaeth Weithredol | 5 |
| 6.3 | Welsh officer / Swyddog y Gymraeg | 5 |
| 6.4 | Sub-contractors & Delivery Partners / Is-gontractwyr a Phartneriaid Cyflenwi | 5 |
| 6.5 | Managers / Rheolwyr | 5/6 |
| 6.6 | Staff / Staff | 6 |
| 6.7 | Learners / Dysgwyr | 6 |
| | | |
| 7 | Communication / Cyfathrebu | 6/7 |
| | | |
| 8 | Complaints / Cwynion | 7 |
| | | |
| 9 | Monitoring and Review Processes / Prosesau Monitro ac Adolygu | 7 |
| | | |

## 1. Purpose / Pwrpas

The purpose of this policy is to demonstrate the commitment of Educ8 Group, and its member organisations, to increase the levels of Welsh language used across the scope of the business. Educ8 acknowledge that under the Welsh Language (Wales) Measure 2011 the Welsh language has official status and should be treated no less favourably than the English language.

Educ8 are committed to implementing a long-term Welsh language policy to raise the profile of the Welsh language as an employability skill and to ensure Welsh is used where possible both internally and externally. Integral to this is to increase the number of learners who have access to Welsh medium and bilingual provision across learning programmes.

Pwrpas y polisi hwn yw dangos ymrwymiad Grŵp Educ8, a'i isgontractwyr, i gynyddu faint o Gymraeg a ddefnyddir ar draws y busnes. Mae Educ8 yn cydnabod bod gan y Gymraeg statws swyddogol yn ôl Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Educ8 wedi ymrwymo i weithredu polisi Cymraeg hirdymor i godi proffil y Gymraeg fel sgil cyflogadwyedd ac i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio lle bo hynny'n bosibl yn fewnol ac yn allanol. Yn ganolog i hyn mae cynyddu nifer y dysgwyr sydd â mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws ein rhaglenni dysgu.

## 2. Scope / Cwmpas

This policy covers all organisational activities of Educ8 and its sub-contracting organisations. This policy applies to all managers, staff, learners, associates, and sub-contractors of Educ8 whilst indirectly providing direction and awareness to the wider community and partner organisations.

Mae'r polisi hwn yn ymdrin â holl weithgareddau sefydliadol Educ8 a'i isgontractwyr. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl reolwyr, staff, dysgwyr, cymdeithion ac isgontractwyr Educ8 tra'n darparu cyfeiriad ac ymwybyddiaeth anuniongyrchol i'r gymuned ehangach a sefydliadau partner.

## 3. Impact on the Learner / Effaith ar y dysgwr

All learners will be given the opportunity to undertake their learning in Welsh, either full or part. Learners will have the opportunity to develop their Welsh language skills and gain a better understanding and awareness of the social, historical and other aspects of Welsh culture and of the country in which they live.

Bydd pob dysgwr yn cael cyfle i ymgymryd â'u dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, naill ai'n llawn neu'n rhannol. Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a meithrin gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o agweddau cymdeithasol, hanesyddol ac eraill ar ddiwylliant Cymru a'r wlad y maent yn byw ynddi.

## 4. Legal & Regulatory Frameworks / Fframweithiau Cyfreithiol a Rheoliadol

Educ8 will comply fully with all related legislation which will include, but not be limited to:

- The Welsh Language Act 1993
- Welsh Language (Wales) Measure 2011
- The Government of Wales Act 2006
- Taking Wales Forward 2016-2021
- Cymraeg 2050 – A million Welsh speakers
- Cymraeg 2050 – A million Welsh speakers: Work Programme 2017-2021
- Welsh Commissioner Requirements
- Educ8 Complaints Policy and Procedure
- Welsh language policy - WBL specification and guidance
- Medr Conditions of Funding (inc Welsh Language Condition)

Bydd Educ8 yn cydymffurfio'n llawn â'r holl ddeddfwriaeth gysylltiedig, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llywodraeth Cymru 2006
- Symud Cymru Ymlaen 2016-2021
- Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr Cymraeg
- Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr: Rhaglen Waith 2017-2021
- Gofynion Comisiynydd Cymru
- Educ8 Polisi a Gweithdrefn Cwynion
- Polisi'r Gymraeg - Manyleb a chanllawiau DSW

**5. Implementation / Gweithrediad**

In order to meet this Educ8 will:

1. Develop a Welsh Action Plan which embraces Cymraeg 2050,Welsh Commissioner recommendations and WBL specification and guidance Welsh Language Policy
2. Employ a Welsh Development Officer to lead Welsh Action plan implementation
3. Set up a Welsh Learner Engagement Forum, with all department representation, to implement, monitor and develop Educ8's Action Plan with the direction of Quality Manager
4. Establish effective working relationships with organisations who have been established to promote and support organisations in developing Welsh language, i.e. Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Medr, National Centre for Learning Welsh, etc
5. Promote the benefits of the Welsh language whilst establishing effective bilingual learning opportunities and resources on Educ8's online Moodle platform to support the development of both staff and learners' Welsh language and cultural understanding and skills
6. Engage first language Welsh speaking learners to undertake a proportion of learning and assessment in Welsh medium or bilingually. Particularly those in priority sectors, Care and Equine, as per WG targets

Er mwyn gwneud hyn bydd Educ8 yn:

1. Datblygu Cynllun Gweithredu'r Gymraeg sy'n cyd-blethu Cymraeg 2050, argymhellion Comisiynydd y Gymraeg a Pholisi Iaith Gymraeg Manyleb ac Arweiniad DSW
2. Cyflogi Swyddog Datblygu'r Gymraeg i arwain Cynllun Gweithredu'r Gymraeg
3. Sefydlu Fforwm Ymrwymiad Dysgwyr Cymraeg, gyda chynrychiolaeth o bob adran, i weithredu, monitro a datblygu Cynllun Gweithredu Educ8 gyda chyfeiriad y Rheolwr Ansawdd
4. Sefydlu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda sefydliadau sydd wedi'u sefydlu i hyrwyddo a chefnogi sefydliadau i ddatblygu'r Gymraeg, h.y. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Medr, Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac ati
5. Hyrwyddo manteision y Gymraeg tra'n sefydlu cyfleoedd dysgu ac adnoddau dwyieithog effeithiol ar blatfform Moodle ar-lein Educ8 i gefnogi datblygiad dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru a sgiliau iaith Gymraeg y staff a'r dysgwyr
6. Annog dysgwyr Cymraeg eu hiaith gyntaf i ymgymryd â chyfran o'u dysgu ac asesu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yn enwedig y rhai yn y sectorau blaenoriaeth, Gofal a Gweithgareddau ar y Tir, yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru

**6. Responsibilities / Cyfrifoldebau**

**Board of Directors / Bwrdd y Cyfarwyddwyr**

- Monitor compliance with Welsh language legal and contractual requirements
- Monitor progress towards national targets and the impact of measures to achieve these



- Monitro cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a chytundebol yr iaith Gymaeg yn llawn

- Monitro cynnydd tuag at dargedau cenedlaethol ac effaith mesurau i gyflawni'r rhain

**Operational Management / Rheolaeth Gweithrediadol**

- Ensure effective implementation and monitoring of this policy
- Manage Welsh development activity through the group QDP and Welsh action plan
- Develop opportunities for Educ8 to use the Welsh language in the workplace
- Provide opportunities for each department to draw upon Welsh expertise and fluency within the Group to provide partial or full delivery of learning activities within apprenticeship frameworks in Welsh or bilingually

- Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu a'i fonitro'n effeithiol
- Rheoli gweithgarwch datblygu'r Cymraeg drwy'r Cynllun Datblygu Ansawdd a Chynllun datblygu'r Gymraeg
- Datblygu cyfleoedd i Educ8 ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Darparu cyfleoedd i bob adran fanteisio ar arbenigedd a rhuglder yn y Gymraeg o fewn y Grŵp i ddarparu darpariaeth rannol neu lawn o weithgareddau dysgu o fewn fframweithiau prentisiaeth yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog

**Welsh Officer / Swyddog y Gymraeg**

- Ensure effective implementation and monitoring of this policy
- Develop and implement Welsh Development Plan to include national targets and impact mesures
- Lead Bilingual Engagement Forum
- Support departments to implement policy commitments
- Develop learning resources and activities to aid effective implementation of the policy

- Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu a'i fonitro'n effeithiol
- Datblygu a gweithredu Cynllun Datblygu Cymru i gynnwys targedau cenedlaethol a mesurau effaith
- Arwain y Fforwm Ymrwymiad Dwyieithog
- Cefnogi adrannau i weithredu ymrwymiadau polisi
- Datblygu adnoddau a gweithgareddau dysgu i helpu i weithredu'r polisi yn effeithiol

**Sub-contractors & Delivery Partners / Is-gontractwyr a Phartneriaid Cyflenwi**

- Ensure effective implementation and monitoring of this policy
- Monitor progress towards national targets and the impact measure to achieve these
- Proactively communicate commitment to this policy to learners, employers, staff and external stakeholders
- Endeavour, where possible, to provide a vocationally competent member of operational staff to deliver qualifications and support Welsh speaking learners.

- Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu a'i fonitro'n effeithiol
- Monitro cynnydd tuag at dargedau cenedlaethol a'r mesur effaith i gyflawni'r rhain
- Cyfathrebu ymrwymiad rhagweithiol i'r polisi hwn i ddysgwyr, cyflogwyr, staff a rhanddeiliaid allanol
- Ymdrechu, lle bo'n bosibl, i ddarparu aelod cymwys yn alwedigaethol o staff gweithredol i ddarparu cymwysterau a chefnogi dysgwyr sy'n siarad Cymraeg.

**Managers / Rheolwyr**

- Provide a consistently high-profile lead on all issues contained within the policy
- Proactively communicate commitment to this policy to learners, employers, staff, and external stakeholders
- Ensure the effective implementation, monitoring and reporting of the impact of all aims and objectives of the policy

- Endeavour, where possible, to provide a vocationally competent member of operational staff to deliver qualifications and support Welsh speaking learners.

- Darparu arweinyddiaeth proffil uchel yn gyson ar yr holl faterion sydd wedi'u cynnwys yn y polisi
- Cyfathrebu yn rhagweithiol eu hymrwymiad i'r polisi hwn i ddysgwyr, cyflogwyr, staff a rhanddeiliaid allanol
- Sicrhau gweithredu, monitro ac adrodd effaith holl nodau ac amcanion y polisi yn effeithiol
- Ymdrechu, lle bo'n bosibl, i ddarparu aelod galwedigaethol gymwys o staff gweithredol i ddarparu cymwysterau a chefnogi dysgwyr sy'n siarad Cymraeg.

**Staff**

- Ensure that Welsh culture is effectively integrated into the professional practice of teaching, learning and assessment delivery
- Ensure learners and employers are fully aware of the range of opportunities available for learning through the medium of Welsh and bilingually
- Maintain an awareness of Welsh language and culture by attending staff development activities
- Be aware of and comply with minimum expectations for delivery and non-delivery staff

- Sicrhau bod diwylliant Cymru wedi'i integreiddio'n effeithiol i arfer addysgu, dysgu ac asesu proffesiynol
- Sicrhau bod dysgwyr a chyflogwyr yn gwbl ymwybodol o'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog
- Cynnal ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant drwy fynychu gweithgareddau datblygu staff
- Bod yn ymwybodol o'r disgwyliadau lleiaf ar gyfer staff hyfforddi a staff gweithredol a chydymffurfio â nhw

**Learners / Dysgwyr**

- Fully engage in activities aimed at developing Welsh language skills and culture awareness
- Develop an understanding of the Welsh language and opportunities for Welsh medium and bilingual communication
- Develop awareness of a broad range of social and cultural experiences.

- Cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau sydd â'r nod o ddatblygu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
- Datblygu dealltwriaeth o'r Gymraeg a chyfleoedd ar gyfer cyfathrebu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Datblygu ymwybyddiaeth o ystod eang o brofiadau cymdeithasol a diwylliannol.

## 7. Communication / Cyfathrebu

This policy will be disseminated to all staff, and any contractor or third-party organisations, through team meetings. All new employees will be advised of this policy as part of initial induction.

Learners will be advised of this policy on induction to learning programmes as well as receiving guidance on bilingual learning throughout their learning journey.

Bydd y polisi hwn yn cael ei rhaeadru i'r holl staff, ac unrhyw gontractwr neu sefydliadau trydydd parti, trwy gyfarfodydd tîm. Bydd gweithwyr newydd yn cael gwybod am y polisi hwn fel rhan o hyfforddiant ymsefydlu cychwynnol.

Bydd dysgwyr yn cael gwybod am y polisi hwn yn ystod eu cyfnod sefydlu i raglenni dysgu yn ogystal â derbyn arweiniad ar ddysgu yn ddwyieithog drwy gydol eu taith ddysgu.

## 8. Complaints / Cwynion

All complaints will be taken seriously and dealt with in a timely and sensitive manner, in accordance with the Educ8 Group Complaints Policy and Procedure.

Bydd pob cwyn yn cael ei chymryd o ddifrif ac yn cael ei thrin mewn modd amserol a sensitif, yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Cwynion Grŵp Educ8.

## 9. Monitoring and Review Processes / Prosesau Monitro ac Adolygu

This policy will be routinely reviewed on an annual basis and where there are changes to regulatory requirements. Reviews will be validated by the Board.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd bob blwyddyn ac yn sgil newidiadau i ofynion rheoleiddio. Bydd adolygiadau yn cael eu dilysu gan y Bwrdd.